Estyn

Hydref 2023



# Rhaglen ieuenctid Twf Swyddi Cymru+:

## Mewnwelediadau hydref 2023

## Cynnwys


Crynodeb gweithredol ........ 1
Ynglŷn â Rhaglen Ieuenctid Twf Swyddi Cymru+ ........ 2
Contractau rhanbarthol ........ 3
Sail y dystiolaeth ........ 4
Prif ganfyddiadau ........ 5
- Cefndir a chyd-destun ........ 5
- Strwythur y rhaglen ........ 5
- Brandio ........ 6
- Recriwtio ac atgyfeiriadau ........ 6
- Darpariaeth ........ 7
- Cyfleoedd cyflogaeth ........ 8
- Profiadau cyfranogwyr ........ 9
- Proffil cyfranogwyr ........ 10
- Y garfan goll ........ 10
- Arwain a gweithio mewn partneriaeth ........ 11
- Adnoddau a chyllid ........ 12

Cwestiynau hunanfyfyrio ........ 13

## Crynodeb gweithredol

Mae’r adroddiad hwn yn crynhoi’r canfyddiadau o bedwar ymweliad monitro rhanbarthol â Twf Swyddi Cymru+ a gynhaliwyd rhwng Hydref 2022 a Mehefin 2023. Mae’r adroddiad wedi’i seilio ar y wybodaeth a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru, darparwyr arweiniol ac is-gontractwyr, cyfranogwyr, cyflogwyr, Cymru’n Gweithio, a staff allweddol mewn awdurdodau lleol.

Mae’r rhaglen yn cynnig tair elfen, sef: ymgysylltu (gan ymgysylltu blaenorol), datblygiad, a chyflogaeth. Ymgysylltu yw’r elfen fwyaf poblogaidd. Mae’r niferoedd sy’n cael mynediad at yr elfen cyflogaeth wedi parhau’n isel, gan nad yw pobl ifanc yn cydnabod y manteision a allai gael eu cynnig gan yr elfen, o gymharu â chael swydd amser llawn nad yw’n gysylltiedig â’r rhaglen. Nid yw’r brandio a’r marchnata presennol yn ddigon effeithiol o ran cyrraedd y gynulleidfa darged, ac mae darparwyr yn cydnabod yr angen am ymagwedd fwy personol at ymgysylltu â’r rhai sy’n gweddu i’r rhaglen. Nododd pobl ifanc nad oedd y brand ‘Twf Swyddi Cymru+’ yn rhoi syniad da iddynt o’r hyn roedd y rhaglen yn ei olygu. Nid yw recriwtio trwy Cymru’n Gweithio wedi arwain at y niferoedd disgwyliedig, ac o ganlyniad, mae darparwyr wedi ymgymryd â chyfrifoldeb am recriwtio uniongyrchol i sicrhau hyfywedd y rhaglen.

Mae’r ddarpariaeth yn eang, ond mae ardaloedd anghysbell yn wynebu heriau teithio. Mae’r rhaglen yn elwa ar staff addysgu ymroddgar a medrus, ond hoffai cyfranogwyr gael mwy o ffocws personoledig ar y meysydd gwaith y maent yn ymddiddori ynddynt. Mae lleoliadau gwaith yn gyfyngedig mewn rhai sectorau, ac mae perthnasoedd â chyflogwyr yn amrywio.

Dywed cyfranogwyr, y mae gan lawer ohonynt broblemau lles, fod profiadau cadarnhaol wedi arwain at hyder a medrau gwell. Mae’r rhaglen yn cynnig cymorth cadarn trwy wasanaethau darparwyr yn ogystal â gweithio mewn partneriaeth yn allanol.

Gallai "carfan goll" o ddarpar gyfranogwyr ddeillio o ffactorau fel aros yn yr ysgol o ganlyniad i raddau wedi’u pennu gan ganolfannau, manteisio ar ddarpariaethau lefel 1 eraill, neu ddewis cyflogaeth. Mae cyfyngiadau rhannu data yn rhwystro dealltwriaeth o’r raddfa angen am y math hwn o ddarpariaeth ymhlith pobl ifanc.

Mae darparwyr yn rheoli’r rhaglen yn dda, gan addasu i heriau. Mae cydweithio rhanbarthol yn amrywio, ac nid oes gan rai ysgolion ymwybyddiaeth o Twf Swyddi Cymru (TSC+Mwy). Mae cydweithio ar draws rhanbarthau wedi arwain at newidiadau cadarnhaol, gan gynnwys ymestyn y terfyn oedran uchaf a chynyddu lwfansau cyfranogwyr. Mae darparwyr yn defnyddio cyllid cost cymorth yn dda i deilwra cymorth i anghenion y cyfranogwyr, er enghraifft trwy frecwast am ddim, talebau cinio, costau teithio a gweithgareddau cyfoethogi.

At ei gilydd, mae rhaglen TSC+Mwy yn cael effaith gadarnhaol ar les a chyflogadwyedd cyfranogwyr. Mae mynd i’r afael â heriau fel lleoliadau gwaith cyfyngedig, brandio a rhannu data yn hanfodol ar gyfer llwyddiant parhaus ac ehangu cymorth i grŵp ehangach o bobl ifanc.

## Ynglŷn â Rhaglen Ieuenctid Twf Swyddi Cymru+

Mae Twf Swyddi Cymru+ (TSC+Mwy) yn rhaglen Llywodraeth Cymru sydd wedi'i chynnwys yn y **Gwarant i Bobl Ifanc** (cynnig cymorth gwarantedig ar gyfer pobl ifanc dan 25 mlwydd oed yng Nghymru i ennill lle mewn addysg neu hyfforddiant, dod o hyd i swydd neu ddod yn hunangyflogedig). Mae'r rhaglen yn rhaglen cymorth hyfforddiant, datblygiad a chyflogadwyedd unigoledig ar gyfer pobl ifanc 16–19 mlwydd oed sy'n byw yng Nghymru, yr aseswyd nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant amser llawn (NACH). Ei nod yw rhoi'r medrau, y cymwysterau a'r profiad i bobl ifanc gael swydd neu hyfforddiant pellach. Mae'n rhaglen hyblyg sydd wedi'i chynllunio o amgylch y person ifanc. Amcanion allweddol y rhaglen yw lleihau nifer y bobl ifanc NACH a chynorthwyo pobl ifanc i wneud y gorau o'u potensial. Cyflwynir y rhaglen gan ddarparwyr arweiniol ledled Cymru o dan gontract gan Lywodraeth Cymru.

Caiff cyfranogwyr eu cyfeirio ar y rhaglen gan gynghorwyr Cymru'n Gweithio neu eu recriwtio yn uniongyrchol gan y darparwyr. Mae atgyfeiriadau yn cynnwys cynnal asesiad cychwynnol o'r cymorth sydd ei angen, yn ogystal â nodi elfennau priodol y rhaglen.

Mae'r tair elfen fel a ganlyn:

- **Ymgysylltu** (gan gynnwys ymgysylltu blaenorol) – Mae'r elfen hon yn helpu pobl ifanc i benderfynu pa lwybr gyrfa yr hoffent ei ddilyn
- **Datblygu** – Mae'r elfen hon yn darparu cymorth neu raglenni sy'n cynnig cymwysterau i helpu'r person ifanc i symud ymlaen i astudio pellach, hyfforddiant neu gyflogaeth
- **Cyflogaeth** – Mae'r elfen hon yn darparu cyfleoedd gwaith â chymhorthdal ar gyfer pobl ifanc

Mae gan bobl ifanc ar y rhaglen, y cyfeirir atynt fel cyfranogwyr, gynllun dysgu unigol (CDU). Caiff y cynllun hwn ei ddatblygu a'i gyflwyno gan ddarparwyr sy'n eu cynorthwyo i ennill y medrau, y cymwysterau a'r profiad i symud ymlaen i ddysgu pellach, cyflogaeth (gan gynnwys hunangyflogaeth) neu brentisiaeth.

Y disgwyliad yw bod darparwyr arweiniol yn dyfeisio a chyflwyno cymorth unigoledig hyblyg a chreadigol sy'n cynnwys ystod eang o weithgarwch, ochr yn ochr â hyfforddiant a datblygu medrau. Gallai hyn gynnwys defnyddio lleoliadau gwaith cyflogwyr, treialon gwaith, prosiectau cymunedol, gwaith gwirfoddol, cyfleoedd dysgu mewn canolfannau a chyflogaeth â chymhorthdal cyflog, ond nid yw wedi'i gyfyngu i hyn.

Gellir cael mwy o wybodaeth am fanyleb y rhaglen ar wefan Llywodraeth Cymru:

Manyleb rhaglen Twf Swyddi Cymru+ | LLYW.CYMRU

## Contractau rhanbarthol

Mae Llywodraeth Cymru wedi contractio rhwydwaith o ddarparwyr hyfforddiant i gyflwyno'r rhaglen hon ar draws pedair ardal ranbarthol rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2026. Ym mhob rhanbarth, mae darparwyr sy'n gontractwyr arweiniol yn gweithio gyda phartneriaid sy'n is-gontractwyr i ddarparu rhaglenni dysgu a/neu ddatblygu integredig. Mae'r rhanbarthau a'r darparwyr fel a ganlyn:

| Canolbarth y De | Y De Ddwyrain |
|---|---|
| **Associated Community Training Ltd – darparwr arweiniol**<br>• Coleg Pen-y-bont<br>• Llamau<br>• MPCT<br>• People Plus<br>• Tydfil Training<br><br>**ITEC Training Solutions Ltd – darparwr arweiniol**<br>• Whitehead Ross | **Associated Community Training Ltd – darparwr arweiniol**<br>• Aspiration Training<br>• Canolfan Pobl Ifanc Cwmbrân (CCYP)<br>• Coleg Paratoi Ysgogiadol ar gyfer Hyfforddiant (MPCT)<br>• Academi Ieuenctid Casnewydd<br>• People Plus<br>• Tydfil Training<br><br>**ITEC Training Solutions Ltd – darparwr arweiniol**<br>• Coleg QS |
| **Y De Orllewin a'r Canolbarth** | **Y Gogledd** |
| **ITEC Training Solutions Ltd – darparwr arweiniol**<br>• Bethany Training<br>• Inspire Training<br>• Canolfan Hyfforddiant Llanelli<br>• Gwaith yn yr Arfaeth/Futureworks – Cyngor Sir Penfro<br><br>**Associated Community Training (ACT) Ltd – – darparwr arweiniol**<br>• Educ8<br>• Hyfforddiant Ceredigion Training (HCT)<br>• Inspire Training<br>• Llamau<br>• Cyngor Gwledig Llanelli<br>• Coleg Paratoi Ysgogiadol ar gyfer Hyfforddiant (MPCT)<br><br>**Consortiwm B-WBL, Coleg Sir Benfro – darparwr arweiniol**<br>• PRP Training<br>• HB Training<br>• Coleg Sir Gâr<br>• Achieve More Training<br>• ITeC Digital<br>• Pathways Training<br>• Sgiliau a Hyfforddiant | **Grŵp Llandrillo Menai (GLLM) – darparwr arweiniol**<br>• Hyfforddiant Gogledd Cymru<br>• Achieve More<br><br>**Associated Community Training (ACT) Ltd – darparwr arweiniol**<br>• Coleg Paratoi Ysgogiadol ar gyfer Hyfforddiant (MPCT)<br><br>**Coleg Cambria – darparwr arweiniol** |

## Sail y dystiolaeth

Yn ystod blwyddyn gyntaf y rhaglen, cynhaliodd arolygwyr ymweliadau monitro ym mhob un o'r pedwar rhanbarth i adolygu'r rhaglen. Yn ystod ein hymweliadau, cawsom gyfle i:

- arsylwi cyfranogwyr mewn sesiynau
- siarad â chyfranogwyr
- adolygu cynlluniau dysgu unigol a gwybodaeth atgyfeirio cyfranogwyr
- arsylwi tiwtoriaid ac aelodau staff eraill sy'n cymryd rhan mewn cyflwyno
- adolygu ansawdd a phriodoldeb adeiladau ac adnoddau
- cyfarfod ag arweinwyr ac aelodau staff allweddol ar draws y sefydliadau
- cyfarfod ag arweinwyr a chynghorwyr Cymru'n Gweithio
- cyfarfod ag aelodau staff allweddol mewn awdurdodau lleol i adolygu'r broses atgyfeirio cyfranogwyr
- cyfarfod â rheolwyr contractau Llywodraeth Cymru

Mae'r adroddiadau a'r argymhellion o ymweliadau rhanbarthol sydd ar gael fel a ganlyn:

Canol De Cymru

De Ddwyrain Cymru

De Orllewin a Chanolbarth Cymru

Gogledd Cymru

# Prif ganfyddiadau

## Cefndir a chyd-destun

Nod rhaglen TSC+Mwy, a gynlluniwyd cyn pandemig COVID-19, yw darparu rhaglen cyflogadwyedd amgen i gyfleoedd blaenorol tebyg. Mae'r rhaglen yn cynnwys tair elfen benodol y caiff pobl ifanc eu cyfeirio iddynt yn dibynnu ar eu medrau, eu cymwysterau, eu profiadau addysgol, eu hanghenion cymorth a'u dyheadau. Mae'n adeiladu ar y rhaglen a gyflwynwyd yn y gorffennol mewn llawer o ffyrdd, gan gynnwys sicrhau ffocws clir ar gynorthwyo cyfranogwyr unigol i gyrraedd eu nodau cyflogaeth neu astudio lefel uwch. Mae'r rhaglen wedi'i chynllunio i gynnwys sesiynau blasu a phrofi gwaith ystyrlon, lle bo'n briodol. Gall cyfranogwyr hefyd sicrhau cymorth teilwredig ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol, os yw'n briodol.

Dyfarnwyd contractau Llywodraeth Cymru ar sail ranbarthol gyda'r disgwyliad fod yr holl ddarparwyr yn y rhanbarth yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau ymagwedd gydweithredol at gynllunio a chyflwyno. Caiff hyn ei ffurfioli trwy gytundeb cydweithio rhanbarthol TSC+Mwy, y mae pob un o'r darparwyr arweiniol yn cofrestru arno.

Yn y flwyddyn gyntaf, roedd 5,330 o gyfranogwyr[1] yn dilyn y rhaglen. Ni chafodd niferoedd cyfranogwyr targed swyddogol eu gosod gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, dywedodd darparwyr ar draws pob un o'r pedwar rhanbarth fod y niferoedd yn is na'r disgwyl.

## Strwythur y rhaglen

Roedd TSC+Mwy yn cynnwys tair elfen yn wreiddiol, sef: ymgysylltu, datblygu a chyflogaeth. Yn dilyn adborth gan ddarparwyr ar ddechrau'r rhaglen, ychwanegwyd opsiwn ymgysylltu blaenorol 'bod yn barod' at yr elfen ymgysylltu i ddarparu ar gyfer y rhai nad ydynt yn barod am yr ymrwymiad sy'n ofynnol gan yr elfen ymgysylltu. Mae'r hyblygrwydd hwn gan Lywodraeth Cymru yn galluogi darparwyr i gynnwys carfan o gyfranogwyr sy'n wynebu rhwystrau a bregusrwydd sylweddol, gan roi iddynt y cymorth sydd ei angen i ymgysylltu â'r rhaglen a gwneud cynnydd.

Adeg ein hymweliadau, roedd mwyafrif y cyfranogwyr wedi cofrestru ar yr elfen ymgysylltu, lleiafrif ar yr elfen datblygu, ac ychydig iawn ar yr elfen cyflogaeth. Mae ein canfyddiadau'n awgrymu nad yw'r elfen cyflogaeth yn ddeniadol i gyfranogwyr, oherwydd wedi iddynt fod yn barod ar gyfer cyflogaeth, maent yn ffafrio cael swydd. Nid oedd pobl ifanc yn cydnabod y manteision a allai gael eu cynnig gan yr elfen cyflogaeth, o gymharu â chael swydd amser llawn nad yw'n gysylltiedig â'r rhaglen. Fel rhan o'r rhaglen, mae'n bosibl i bobl ifanc gymryd rhan mewn opsiwn cyflogadwyedd 10 wythnos fel rhan o'r elfen cyflogaeth, tra byddant yn aros i'r darparwr nodi cyflogwr a chontract swydd priodol. Oherwydd nifer fach iawn y cyfranogwyr ar yr elfen cyflogaeth, nid oeddem yn gallu ymgysylltu â phobl ifanc a oedd yn manteisio ar y cyfle hwn. Yn yr un modd, nid yw'n apelio at y rhan fwyaf o gyflogwyr y byddai'n well ganddynt gael ymrwymiad amser llawn cyflogai nad yw'n dilyn rhaglen hyfforddiant ac nad oes angen yr un lefel o gymorth arno â chyfranogwr lleoliad.

[1] Ystadegau Twf Swyddi Cymru+: Ebrill 2022 i Fawrth 2023

## Brandio

Er bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi'r enw a'r brand ar brawf ar gyfer y rhaglen gyda phobl ifanc, ar sail y rhai y siaradom â nhw, dywedodd nad yw enw'r rhaglen yn rhoi eglurder i ddarpar gyfranogwyr, rhieni, gwarcheidwaid neu ofalwyr ynglŷn â'r ymagwedd at ddysgu, cynnwys y rhaglen, y cymorth sydd ar gael, neu'r cyfleoedd dilyniant. Yn yr un modd, nid yw cyflogwyr yn aml yn deall y rhaglen yn llawn, neu yn wir beth fyddai eu rôl pe baen nhw'n cymryd rhan.

Nid yw'r marchnata cenedlaethol wedi'i arwain gan Lywodraeth Cymru yn ddigon effeithiol o ran cyrraedd y gynulleidfa darged neu godi ymwybyddiaeth gyda'r gweithlu addysg ehangach. Mae darparwyr yn darparu eu strategaethau eu hunain i gyd-fynd â'r ymgyrch farchnata genedlaethol i gyrraedd y bobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys cysylltu â'r rhai sy'n gweithio gyda darpar gyfranogwyr ochr yn ochr â datblygu eu deunyddiau hyrwyddo eu hunain. Fodd bynnag, mae cylfe i ddatblygu hyn ymhellach ym mhob rhanbarth o ystyried y niferoedd is na'r disgwyl.

## Recriwtio ac atgyfeiriadau

Y bwriad gwreiddiol oedd y byddai'r holl atgyfeiriadau i raglen TSC+Mwy trwy Cymru'n Gweithio. Fodd bynnag, daeth yn amlwg ar ddechrau'r rhaglen y byddai'r nifer isel iawn o atgyfeiriadau gan Cymru'n Gweithio yn golygu nad oedd y rhaglen yn gynaliadwy. Ymatebodd Llywodraeth Cymru yn gadarnhaol i geisiadau gan ddarparwyr i recriwtio yn uniongyrchol, ac arweiniodd hyn at niferoedd cynyddol. Ar hyn o bryd, caiff y rhan fwyaf o gyfranogwyr eu recriwtio trwy atgyfeiriadau uniongyrchol. Mae darparwyr wedi defnyddio ystod o strategaethau i gyrraedd y gynulleidfa darged, gan gynnwys dosbarthu taflenni, ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol, a chynlluniau cymhellol cyfeirio ffrind. Mae darparwyr hefyd yn gweithio'n uniongyrchol gyda thimau awdurdodau lleol, ysgolion ac asiantaethau cymorth eraill i gyrraedd pobl ifanc a allai fod yn gweddu i'r rhaglen.

Pan gaiff atgyfeiriadau eu gwneud trwy Cymru'n Gweithio, mae'r wybodaeth yn gysylltiedig â'r cyfranogwr yn fanwl a thrylwyr, ar y cyfan. Fodd bynnag, nid yw pecyn cymorth diagnostig Cymru'n Gweithio bob amser yn nodi rhwystrau rhag dysgu yn llawn, a gall y wybodaeth a roddir i gyfranogwyr amrywio yn dibynnu ar wybodaeth cynghorwyr unigol. Dywedodd darparwyr wrthym fod Cymru'n Gweithio yn cyfeirio cyfranogwyr ar sail y graddau a enillwyd mewn cymwysterau i raddau helaeth, mewn ychydig o achosion. O ystyried natur annibynadwy graddau yn ystod cyfnod COVID-19, a'r rhwystrau iechyd meddwl a'r gorbryder cymdeithasol sylweddol sy'n wynebu llawer o'r garfan bresennol o bobl ifanc, nid yw hyn bob amser yn ddull dibynadwy i gadarnhau p'un a yw person ifanc yn gweddu i'r rhaglen. Yn aml, mae cyfranogwyr yn dweud eu bod yn gwybod bod eu graddau yn annibynadwy, gan ychwanegu bod hyn yn eu gwneud hyd yn oed yn fwy gorbryderus ynglŷn â ph'un a ydynt yn gallu ymdopi'n llwyddiannus â'r camau nesaf o ran cyflogaeth neu addysg a hyfforddiant.

Ni ystyrir bod atgyfeiriadau Cymru'n Gweithio bob amser yn ddigon o ran deall diddordebau, uchelgeisiau ac anghenion cymorth cyfranogwr. O ganlyniad, nid yw cynghorwyr Cymru'n Gweithio bob amser yn cyfeirio cyfranogwyr at elfen fwyaf priodol TSC+Mwy. Nid oes dealltwriaeth gyson ymhlith darparwyr ynglŷn â ph'un a ydynt yn gallu cytuno i newid elfen ar ôl pennu cyfranogwr, hyd yn oed mewn achosion lle gallai cyfranogwr weddu'n well i elfen arall. Mae'r gamddealltwriaeth hon

wedi golygu nad yw cyfranogwyr, mewn rhai achosion, bob amser yn gwneud y cynnydd y gallant ei wneud, neu maent yn gadael rhaglenni'n gynnar. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, mae darparwyr wedi symud ymlaen a gwneud newidiadau er lles pennaf y cyfranogwr.

Mae heriau'n parhau ag atgyfeiriadau uniongyrchol gan nad yw'r wybodaeth bob amser yn amlwg ar unwaith, ac yn aml, mae darparwyr yn dysgu am anghenion a rhwystrau unigolyn wedi iddo gofrestru. Yn nodweddiadol, wedi i ddarparwyr fagu hyder ac ymddiriedaeth y bobl ifanc, tua phythefnos neu dair wythnos ar ôl i'r rhaglen ddechrau, mae cyfranogwyr yn datgelu eu rhwystrau a'u dyheadau. Ar yr adeg hon, mae darparwyr yn aml yn teilwra eu cyflwyno a'u cynnwys i weddu'n well i anghenion unigol cyfranogwyr.

Ar gyfer atgyfeiriadau uniongyrchol, mae'r fiwrocratiaeth gysylltiedig sy'n deillio o ofynion y ffynhonnell gyllid yn rhwystr. Er enghraifft, gall y gofyniad am ddogfennaeth adnabod arwain at oedi mewn amseroedd dechrau gan nad oes gan rai cyfranogwyr y wybodaeth hon wrth law yn hawdd. Pan fydd cyfranogwyr yn wynebu rhwystrau sylweddol ac mae angen cymorth cychwynnol cryf arnynt, maent yn aml yn cael eu colli i'r ddarpariaeth wrth iddynt aros i'w gwaith papur gael ei gwblhau. Ymatebodd Llywodraeth Cymru i hyn a chaniatáu i gyfranogwyr ddechrau tra bydd dogfennaeth neu dystiolaeth yn cael ei chasglu.

Er bod darparwyr yn rhannu data ar ddechreuadau, ymadawyr a dilyniant gyda Cymru'n Gweithio, rhannodd Cymru'n Gweithio a Chydlynwyr Ymgysylltu a Dilyniant awdurdodau lleol eu rhwystredigaethau ynglŷn â pheidio â chael gwybodaeth gyson gan ddarparwyr am daith person ifanc wedi iddo ymuno â'r rhaglen, oni bai bod eu hangen am fwy o gymorth. Maent yn awyddus i ddilyn hynt a helynt deilliannau ac unrhyw storïau llwyddiant i'w cynorthwyo i ddeall a hyrwyddo'r rhaglen ymhellach.

**Darpariaeth**

Cyflwynir darpariaeth mewn amrywiaeth o leoliadau ledled Cymru, ac mae darparwyr yn nodi'r meysydd lle mae'r angen mwyaf. Bydd gan bob cyfranogwr gynllun dysgu unigol, sy'n adlewyrchu ei amgylchiadau unigol, gan gynnwys ffafriaethau am ddarpariaeth wyneb yn wyneb neu ar-lein. Mae heriau mewn ardaloedd mwy anghysbell lle mae amseroedd teithio, ynghyd â chludiant cyhoeddus anfynych ac annibynadwy, yn rhwystr i rai cyfranogwyr. Mewn ychydig o achosion, mae hyn wedi arwain at dynnu darpariaeth yn ôl mewn ardaloedd mwy gwledig oherwydd niferoedd isel y cyfranogwyr. Mewn ychydig o achosion, mae darparwyr wedi ceisio ymgysylltu â dysgwyr trwy weithgareddau dysgu o bell. Fodd bynnag, mae dysgwyr ar y rhaglen hon yn elwa ar ddysgu a chymorth wyneb yn wyneb yn bennaf. O ganlyniad, yn aml, nid yw cyfranogwyr sy'n byw mewn ardaloedd mwy anghysbell yn ymgysylltu'n effeithiol â'r rhaglen, ac nid ydynt yn cael yr hyfforddiant a'r cymorth personol sydd ei angen arnynt.

Mae lleoliadau a ddefnyddir ar gyfer gweithgareddau hyfforddi yn hygyrch, gan ystyried y rhwystrau y gallai cyfranogwyr eu hwynebu o ran amgylcheddau anghyfarwydd. Mae'r rhan fwyaf o'r lleoliadau yn groesawgar a phriodol ar gyfer y rhaglen, ac yn cynnwys adnoddau ysgogol, ystafelloedd ymneilltuo a gofodau allanol, yn yr achosion gorau.

Mae addysgu, dysgu a chymorth yn gryf ar draws y ddarpariaeth, ac mae timau cyflwyno rhaglenni yn gyfarwydd â'r heriau sy'n wynebu cyfranogwyr o ran profiadau dysgu blaenorol, bregusrwydd, materion ymddygiadol, a bywydau cartref cymhleth mewn rhai achosion. Mae'r cymorth cofleidiol yn gynhwysfawr, gyda darparwyr yn cysylltu'n dda â gwasanaethau cymorth mewnol ac allanol fel cynghorwyr, hyfforddwyr a chwnselwyr.

Mae proffesiynoldeb y staff cyflwyno yn amlwg. Mae athrawon yn wybodus. Maent yn rheoli'r amgylchedd dysgu yn effeithiol ac yn fedrus o ran diwallu anghenion cyfranogwyr ar y rhaglen hon. Mae'r rhan fwyaf o sesiynau yn fywiog, yn ddiddorol, ac yn cynnwys amrywiaeth o adnoddau ysgogol a pherthnasol sy'n cynnal diddordeb y bobl ifanc ac yn eu herio. Fodd bynnag, dywed cyfranogwyr y byddent yn croesawu mwy o gynnwys sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'u meysydd diddordeb yn hytrach na medrau cyflogadwyedd a medrau bywyd cyffredinol. Mewn lleiafrif o achosion, collir cyfleoedd i bersonoli gweithgareddau, eu cysylltu â meysydd diddordeb cyfranogwyr, neu gynnig cyfleoedd blasu gwaith priodol. Er enghraifft, dywed cyfranogwyr mewn sesiwn grŵp ffocws eu bod yn gobeithio sefydlu gyrfaoedd mewn plastro, peirianneg drydanol ac animeiddio, ac y byddent yn croesawu cyfle i archwilio'r meysydd gwaith hyn yn fanylach o fewn eu sesiynau yn y darparwr ac yn ennill profiad ymarferol yn y gweithle yn gysylltiedig â'r meysydd diddordeb hyn.

Nid yw cynlluniau dysgu unigol cyfranogwyr yn nodi'n gyson y mathau o waith y mae gan gyfranogwyr ddiddordeb ynddynt, nac yn trefnu profiad gwaith cynlluniedig yn eu rhaglen hyfforddi. Byddai cyfranogwyr ar draws pob elfen yn elwa ar sesiynau blasu'r gweithle a phrofiad gwaith wedi'i raglennu. Fodd bynnag, byddai angen i ddarparwyr gynllunio'r gweithgareddau hyn yn ofalus i wneud yn siŵr fod cyfranogwyr yn cael eu paratoi'n llawn ar gyfer y gweithgareddau heriol hyn. Mae angen i gyflogwyr gael eu dewis a'u cynorthwyo'n ofalus i wneud yn siŵr eu bod yn deall anghenion cyfranogwyr a'r mentora y gallai fod ei angen ar gyfranogwyr. Er ei bod yn elfen allweddol o'r rhaglen, nid oes digon o gyfranogwyr yn elwa ar gyfleoedd profiad gwaith ystyrlon, lle bo'n briodol.

Er bod Llywodraeth Cymru yn cynyddu'r cyllid ar gyfer cyflwyno trwy gyfrwng y Gymraeg, ychydig iawn o raglenni a gyflwynir trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog, a cheir ychydig iawn o enghreifftiau yn unig o'r Gymraeg yn cael ei hintegreiddio mewn sesiynau. Mewn ychydig iawn o achosion, mae tiwtoriaid yn cyfathrebu â siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf yn Gymraeg. Yn aml, mae cyfranogwyr â medrau Cymraeg yn dewis ymgymryd â phob agwedd ar eu gwaith ysgrifenedig yn Saesneg hyd yn oed pan fydd eu tiwtoriaid yn eu hannog i ymgymryd â dysgu ac asesu dwyieithog.

### Cyfleoedd cyflogaeth

Gwelsom ychydig iawn o gyfranogwyr yn y gweithle yn ystod ein hymweliadau. Roedd hyn yn rhannol oherwydd bod cymaint o bobl ifanc yn dilyn yr elfen ymgysylltu, ond dywed darparwyr hefyd fod cyfleoedd lleoliadau gwaith mewn rhai sectorau yn brin. Er enghraifft, mae sectorau fel lletygarwch, ac iechyd a gofal yn wynebu heriau sylweddol o ran recriwtio, felly nid oes ganddynt yr adnoddau i gefnogi'r rhai ar leoliadau gwaith. Mewn meysydd eraill, fel TG, mae llawer o'r gwaith bellach wedi'i leoli gartref, sy'n golygu ei bod yn heriol dod o hyd i leoliadau. Mewn meysydd mwy traddodiadol, fel trin gwallt, bu'n rhaid i berchnogion busnes wneud

arbedion, felly maent wedi troi at ddull rhentu cadair mewn gofodau a rennir, sydd hefyd yn rhwystr rhag derbyn cyfranogwyr lleoliad gwaith. Mae lleoliadau adeiladu yn broblemus gan fod gofynion yswiriant yn mynnu 18 oed fel isafswm oedran.

Yn aml, mae darparwyr yn defnyddio eu cysylltiadau presennol i geisio sicrhau profiad gwaith ystyrlon i gyfranogwyr. Fodd bynnag, efallai nad y cyflogwyr hyn yw'r amgylchedd mwyaf addas bob amser ar gyfer cyfranogwyr TSC+Mwy, yn enwedig os oes ganddynt angen dysgu ychwanegol neu anghenion lles. Mae angen archwilio lleoliadau gwaith yn ofalus i sicrhau cyfatebiaeth addas â phob cyfranogwr unigol. Gallai'r partneriaethau sgiliau rhanbarthol fod yn adnodd na ddefnyddir yn ddigonol i ofyn am gymorth gan gyflogwyr o'r un anian a fydd yn rhoi profiad gweithle i gyfranogwyr mewn amgylchedd cefnogol.

Mae trafodaethau â chyflogwyr yn awgrymu darlun cymysg o ran y perthnasoedd â darparwyr, a pha mor dda maent yn cael cymorth, yn eu barn nhw. Yn yr achosion gorau, mae gan gyflogwyr ddealltwriaeth dda o'r rhaglen, maent yn gyfarwydd ag anghenion cyfranogwyr, ac mae ganddynt gyfrwng ar gyfer rhannu a chodi pryderon gyda darparwyr. Fodd bynnag, ceir achosion hefyd o gyfathrebu gwael a diffyg cymorth.

Her allweddol i ddarparwyr yw gwneud yn siŵr fod ganddynt amrywiaeth gynhwysfawr o gyflogwyr ar gael i gynnig profiadau lleoliad gwaith gwerthfawr tra'n gallu darparu'r cymorth y gallai fod ei angen ar gyfranogwyr hefyd.

## Profiadau cyfranogwyr

Mae'r rhan fwyaf o gyfranogwyr yn siarad yn gadarnhaol am eu profiadau ar y rhaglen, ac maent wir yn gwerthfawrogi bod mewn amgylchedd lle cânt eu trin fel oedolion. Maent yn werthfawrogol o'r ymagwedd gefnogol mewn sesiynau, ac mae llawer ohonynt yn dweud cymaint y maent yn gwerthfawrogi gallu dysgu mewn grwpiau llai. Maent yn cymharu'r rhaglen â phrofiadau addysgol blaenorol lle roeddent mewn grwpiau mwy, ac mae llawer ohonynt yn esbonio y bu eu hymddygiad yn wael mewn lleoliadau addysg yn y gorffennol, gan ychwanegu nad oedd ganddynt ffocws a'u bod yn ei chael yn anodd ymgysylltu â dysgu. Mae llawer ohonynt yn disgrifio sut daethant yn fwy ynysig oherwydd cyfnodau clo COVID-19, a chyn ymuno â TSC+Mwy, roeddent wedi'i chael yn anodd cymysgu â phobl eraill neu ymgysylltu â chymdeithas.

Mae llawer o gyfranogwyr yn siarad yn gadarnhaol am eu cynnydd ers ymuno â'r rhaglen, gan roi enghreifftiau o'r wybodaeth a'r medrau newydd y maent wedi'u hennill. Maent yn amlinellu'r modd y mae eu hyder a'u hunan-barch wedi datblygu o ganlyniad i'w profiadau dysgu, gan gynnwys y cyfleoedd ehangach sydd ar gael, fel tripiau dydd, gweithgareddau cyfoethogi a gwaith elusennol.

Mae'r gydberthynas gadarnhaol â staff yn amlwg bron ym mhob sesiwn a arsylwyd, ac mae trafodaethau â chyfranogwyr yn cefnogi hyn ymhellach. Maent yn disgrifio pa mor dda y cânt eu cynorthwyo, yn eu barn nhw, o ran lles, yn ogystal â'u dysgu. Mae bron pob un ohonynt yn gwybod sut a ble i gael cymorth ychwanegol os oes angen, ac yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt.

## Proffil cyfranogwyr

Roedd gan lawer o bobl ifanc ar raglenni tebyg blaenorol broblemau ymddygiadol, ac ar y rhaglen hon, mae mynychder uwch o bobl ifanc yn cael trafferth â phroblemau lles, gorbryderon, a mathau eraill o fregusrwydd. Mae darparwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill yn credu y gellir priodoli hyn i'r pandemig a'r effaith gysylltiedig ar gymdeithasu. Mae hyn yn arwain at garfan hynod amrywiol, yn amrywio o'r rhai sydd wedi'u cymell ac sydd â phroffil graddau cryf, ond yn gweddu'n fwy i'r math hwn o raglen na choleg neu ysgol o ganlyniad i orbryderon a/neu rwystrau rhag bod mewn amgylcheddau prysur, i'r rhai sy'n arddangos problemau ymddygiadol sylweddol. Mae darparwyr yn cydnabod bod llawer o'r bobl ifanc hyn gryn bellter o fod yn barod ar gyfer cyflogaeth.

Mae darparwyr wedi croesawu cynyddu'r cymhwyster oedran cofrestru o 18 i 19 oed, ond mae sawl un yn mynegi bod angen ei godi ymhellach gan eu bod yn credu bod yna bobl ifanc a fyddai'n elwa ar y math hwn o ddarpariaeth, ond nad ydynt yn bodloni'r meini prawf oedran. Mae llawer o ddarparwyr yn awgrymu y dylid cynyddu'r terfyn oedran uchaf i 24 oed i gyd-fynd â'r Warant ehangach i Bobl Ifanc. Fodd bynnag, mae prosesau caffael yn atal cynnydd pellach mewn ystod oedran.

## Y garfan goll

Mae darparwyr ledled Cymru yn rhannu pryderon ynghylch carfan goll o bobl ifanc a fyddai'n nodweddiadol wedi cael mynediad at raglenni tebyg yn y gorffennol. Maent yn cydnabod y gallai hyn fod o ganlyniad i amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys mwy o bobl ifanc:

- yn aros ymlaen yn yr ysgol, neu'n mynd i goleg, o ganlyniad i raddau wedi'u pennu gan ganolfannau
- yn cael mynediad at ddarpariaeth lefel 1 mewn colegau
- yn dewis cael swydd, o ystyried y cyfleoedd cynyddol a'r argyfwng costau byw; cefnogir hyn gan y ffaith mai'r gyfradd diweithdra ymhlith pobl ifanc yw'r isaf ers i gofnodion ddechrau yn 2006, yn seiliedig ar yr arolwg blynyddol o'r boblogaeth
- yn chwilio am economi gudd amgen a chyfleoedd arian mewn llaw
- yn bod yn amharod i fentro allan i'r byd ar ôl ynysu yn ystod y pandemig

Wrth wneud cynnig am gontract Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r rhaglen, rhagwelodd darparwyr y byddai nifer sylweddol uwch o gyfranogwyr yn cael eu recriwtio ar y rhaglen, er nad oedd unrhyw darged swyddogol. Mae'r niferoedd isel sy'n dechrau cael hyfforddiant ar y rhaglen yn destun pryder. Yn ystod ein hymweliadau, roedd o leiaf ddwy enghraifft o ddarpariaeth yn cael ei thynnu'n ôl yn gyfan gwbl o ardal oherwydd niferoedd isel.

Er gwaethaf y ffaith fod Llywodraeth Cymru a darparwyr sy'n gontractwyr wedi gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu ystod o ymyriadau i ymgysylltu â'r gynulleidfa darged, nid oes dealltwriaeth ar y cyd o'r raddfa angen, nac yn wir y llwyddiant wrth recriwtio'r garfan goll bosibl. Mae hyn yn bennaf oherwydd y diffyg data trylwyr neu hygyrch ar nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NACH). Mae diffyg protocolau rhannu data ac awgrymiadau fod Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) yn atal rhag unrhyw rannu yn gwaethygu'r sefyllfa ymhellach, ac yn creu mwy o anawsterau o ran hyfywedd rhaglen. Er

enghraifft, nid oes gan randdeiliaid brotocolau ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth am ddarpar gyfranogwyr, gan gynnwys y rhai sy'n tynnu'n ôl o raglenni coleg.

Mae darparwyr a rhanddeiliaid eraill sy'n gweithio gyda'r gynulleidfa darged yn cydnabod mai'r dull mwyaf effeithiol o ymgysylltu â'r bobl ifanc hyn yw sefydlu perthnasoedd. Mae Cydlynwyr Ymgysylltu a Dilyniant mewn timau awdurdodau lleol yn cyflawni'r rôl hon trwy guro ar ddrysau, cynnig cymorth, a darparu cysylltiad parhaus. Fodd bynnag, maent hefyd yn cydnabod nad yw llawer o'r bobl ifanc hyn mewn gwirionedd yn barod ar gyfer y rhaglen TSC+Mwy, ac ni fydd rhai ohonynt yn barod ar gyfer hynny am o leiaf ddwy flynedd o ganlyniad i orbryderon a rhwystrau rhag ymgysylltu. Mae'r Cydlynwyr Ymgysylltu a Dilyniant yn gyfarwydd â'r rhwystrau niferus a'r sefyllfaoedd cymhleth sy'n wynebu'r bobl ifanc hyn, a'u nod yw cefnogi a darparu parhad hyd nes byddant yn barod i ymgymryd â'r rhaglen, ac mewn rhai achosion, yn barhaus, os oes angen.

## Arwain a gweithio mewn partneriaeth

Mae darparwyr yn rheoli'r rhaglen yn dda, gan sicrhau bod y rhan fwyaf o gyfranogwyr yn cael profiadau cadarnhaol ac ystyrlon sy'n eu cynorthwyo yn eu dysgu a'u dilyniant. Mae darparwyr wedi ymateb yn dda i'r heriau y daethant ar eu traws, fel y niferoedd is na'r disgwyl, ac ehangder a manylder anghenion cymorth cyfranogwyr.

Mae'r ffordd y mae darparwyr yn gweithio yn amrywio ar draws y rhanbarthau. Mewn ychydig o achosion, mae sefydliadau yn dod o hyd i ffyrdd o weithio gyda'i gilydd sy'n cyd-fynd â'r dull rhanbarthol, ac mae hyn yn cynnwys rhannu gwybodaeth a data, cyfnewid arfer dda, a chyfeirio cyfranogwyr ar draws darparwyr lle mae hyn yn briodol. Fodd bynnag, mewn rhanbarthau eraill, gwelir y rhaglen TSC+Mwy fel estyniad o ddarpariaeth bresennol y brentisiaeth dysgu yn y gwaith, ac er bod gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol rhwng darparwyr arweiniol a'u partneriaid cyflenwi, collir cyfleoedd i ddefnyddio dull mwy rhanbarthol er gwaethaf y cytundebau cydweithio rhanbarthol sydd ar waith.

Mae cysylltiadau ag ysgolion yn amrywio o fod yn gadarnhaol, gyda darparwyr yn cael gwahoddiad i siarad â disgyblion yn ystod gwasanaethau a digwyddiadau gyrfaoedd, a pherthnasoedd yn cael eu cynnal ar ôl gadael yr ysgol i sicrhau bod cyfranogwyr yn cael cymorth yn eu taith barhaus. Mewn achosion eraill, mae ysgolion yn amharod i godi ymwybyddiaeth am y rhaglen, ac yn yr achosion gwaethaf, nid yw uwch arweinwyr mewn ysgolion yn deall beth yw'r rhaglen, nac at bwy mae wedi'i hanelu.

Mae arweinwyr o ddarparwyr ledled Cymru wedi dod at ei gilydd i drafod rhai o heriau'r rhaglen ac wedi bod yn unfryd yn eu negeseuon at Lywodraeth Cymru. Mae enghreifftiau lle mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar y dull cenedlaethol wedi cynnwys yr angen ar gyfer yr ymgysylltu blaenorol, yn ogystal â'r elfen ymgysylltu, ymestyn y terfyn oedran uchaf i 19 oed, a chynyddu'r lwfans wythnosol ar gyfer cyfranogwyr. Maent yn werthfawrogol iawn o ymatebolrwydd Llywodraeth Cymru ac yn siarad yn gadarnhaol am yr effaith y mae'r newidiadau hyn wedi'i chael ar y ddarpariaeth.

## Adnoddau a chyllid

Yn ogystal â’r cyllid ymsefydlu a chyflwyno, mae darparwyr yn defnyddio’r cyllid costau cymorth ychwanegol sydd ar gael i sicrhau bod cymorth yn briodol ac yn cael ei deilwra i anghenion y cyfranogwyr. Mae enghreifftiau’n cynnwys brecwast am ddim, talebau cinio, costau teithio a gweithgareddau cyfoethogi. Fodd bynnag, bu heriau hefyd, gan gynnwys absenoldeb cyllid i ardaloedd sy’n denau eu poblogaeth ar gyfer y rhai sy’n cyflwyno yn ardaloedd mwy anghysbell y wlad. Yn gysylltiedig â hyn, mae’r ffaith fod cyllid yn cyd-fynd â chyfranogwr yn hytrach na charfan, gan olygu bod darpariaeth fach mewn ardaloedd gwledig mewn perygl o ran hyfywedd. Yn olaf, mae’r ffaith fod y cylch cyllid yn rhedeg dros flwyddyn ariannol yn hytrach na blwyddyn academaidd wedi ychwanegu haen arall o fiwrocratiaeth ar gyfer sefydliadau sydd wedi arfer â chylchoedd cyllid yn seiliedig ar flynyddoedd academaidd.

## Cwestiynau hunanfyfyrio

**Ar gyfer Llywodraeth Cymru:**

1. Sut gall data wedi'i ddilysu ar gyfer y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NACH), gan gynnwys niferoedd targed rhaglenni, cofrestriadau, deilliannau, proffiliau cyfranogwyr (gan gynnwys nodweddion gwarchodedig), a ffynonellau cyfeirio, gael ei gasglu a'i rannu'n effeithiol â darparwyr?

2. Sut gall hyn neu raglenni cymorth eraill ddiwallu anghenion pobl ifanc hŷn ag anghenion tebyg nad ydynt yn gymwys ar gyfer rhaglen ieuenctid Twf Swyddi Cymru+ ar hyn o bryd?

3. Sut gellir addasu'r brandio a'r marchnata i ymgysylltu'n well â'r gynulleidfa darged a chodi ymwybyddiaeth gyffredinol am y rhaglen ar draws darparwyr addysg a hyfforddiant, a gyda chyflogwyr?

4. Sut gellir gwella effaith yr elfen cyflogaeth?

**Ar gyfer darparwyr:**

5. Sut gall darparwyr nodi ac ymgysylltu â chymunedau sydd â chyfranogiad cyfyngedig yn y rhaglen, os o gwbl, i godi ymwybyddiaeth a chynyddu recriwtio?

6. Pa strategaethau gellir eu defnyddio i ymgysylltu â chyflogwyr yn y rhanbarth yn well, a'u cynorthwyo'n well, i ddarparu mwy o gyfleoedd ar gyfer cyfranogwyr?

7. Ym mha ffyrdd y gellir gweithredu ymagwedd fwy rhanbarthol at gynllunio, cyflwyno a rhannu gwybodaeth ac arferion da yn effeithiol?

**Ar gyfer Cymru'n Gweithio:**

8. Pa hyfforddiant a gwybodaeth ychwanegol y gellir eu darparu i gynghorwyr i sicrhau cysondeb wrth rannu gwybodaeth â darpar gyfranogwyr?

9. Sut dylai arweinwyr Cymru'n Gweithio gysylltu â Llywodraeth Cymru i sicrhau bod darparwyr yn cael eglurder o ran cyfranogwyr yn symud ar draws elfennau?

**Ar gyfer Llywodraeth Cymru, darparwyr, Cymru'n Gweithio ac awdurdodau lleol:**

10. Sut gellir sefydlu protocolau rhannu data effeithiol, gan gynnwys mecanweithiau ar gyfer rhannu gwybodaeth am gyfranogwyr ar ôl cofrestru, i wella cydlynu rhaglenni a chymorth?